# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYNLLUN PONTIO CYFRWNG CYMRAEG

Diben y cynllun pontio cyfrwng Cymraeg yw darparu hyfforddiant a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau athrawon sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ac arbenigedd i ddysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i newid i ddysgu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Fel rhan o'r cynllun, bydd gofyn i athrawon unigol ddilyn proses ymgeisio.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu.

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gennych ar y ffurflen gais yn cael ei phrosesu gan Lywodraeth Cymru. Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol yw erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae hyn yn ein galluogi i brosesu'r data gan yr ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i gyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau bod eich cais yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun, ac i gofnodi a gwerthuso ceisiadau i'r cynllun.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel gyda sefydliadau partner y cynllun, fel y gwelir isod. Maent wedi'u his-gontractio i ddarparu gwasanaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd sefydliadau partner y cynllun ond yn defnyddio eich gwybodaeth i sicrhau bod eich cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cynllun. Rhaid i sefydliadau partner ddinistrio'r holl wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu a'i phrosesu yn benodol ar gyfer y cynllun hon pan fydd y contract yn dod i ben.

Sefydliadau partner y cynllun yw:

Prifysgol Bangor
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Abertawe
Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda chwmni, a gaiff ei is-gontractio gan Lywodraeth Cymru, at ddibenion gwerthuso'r rhaglen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol am 7 mlynedd o'r dyddiad y bydd y llythyr derbyn yn cael ei anfon at yr ymgeisydd llwyddiannus. Bydd data unrhyw ymgeisydd aflwyddiannus yn cael eu cadw am hyd at dair blynedd ar ôl ei hysbysu. Dan unrhyw amgylchiadau, ar ôl y cyfnod hwnnw bydd copïau caled o ddata'n cael eu torri'n ddarnau a chaiff data electronig eu dileu.

# Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Pontio Cyfrwng Cymraeg

O dan y GDPR mae gennych chi hawl:

- ✓ i weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi
- ✓ ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- ✓ i wrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi
- ✓ i gyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau)
- ✓ gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â:

**Tim y Cynllun Pontio Cyfrwng Cymraeg ar AthrawonCC.WMTeachers@llyw.cymru.**

Gweler manylion cyswllt eraill isod.

| | **Swyddog Diogelu Data** | **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** |
|---|---|---|
| Cyfeiriad: | Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ | Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Gaer/-Cheshire<br>SK9 5AF |
| Rhif ffôn: | | 029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU) |
| Cyfeiriad e-bost/gwefan: | Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru | www.ico.gov.uk |